



Fyddwch **CHI'N** pleidleisio yn **etholiadau'r**



DYCH CHI'N POENI AM

- staffio diogel?
- cyflog yn y GIG?
- nifer y nyrsys ardal?
- cau'r bwlch rhwng iechyd a gofal cymdeithasol?
- llefydd nyrsio i fyfyrwyr?

DYMA'CH CYFLE I LEISIO EICH BARN!



**MAE ANGEN CLYWED
LLEISIAU'R
PROFFESIWN NYRSIO!**

PLEIDLEISIO yn ETHOLIADAU'R SENEDD

Beth mae angen i chi ei wybod...



Dydd Iau 6 Mai 2021 yw **DIWRNOD YR ETHOLIAD**.
PEIDIWCH Â CHOLLI EICH CYFLE I BLEIDLEISIO!
Cofrestrwch yma erbyn hanner nos ar 19 Ebrill 2021:
www.gov.uk/register-to-vote

YNA PENDERFYNWCH SUT YR YDYCH AM BLEIDLEISIO...

DRWY'R POST



Does dim angen i chi roi rheswm!
Mae ffurflen gais a'r cyfeiriad danfon ar
wefan y Comisiwn Etholiadol.

**Gallwch wneud hyn hyd at 5pm ar
20 Ebrill 2021**

Byddwch wedyn yn derbyn pecyn
pleidleisio gan eich cyngor lleol rai
dyddiau cyn yr etholiad.

DRWY DDIRPRWY



I enwebu **rhywun rydych chi'n ymddiried
ynddo** i bleidleisio yn eich lle,
defnyddiwch y ffurflenni cais Pleidlais trwy
Ddirprwy ar **wefan y Comisiwn
Etholiadol**. Rhaid i chi wneud cais cyn
5pm ar 27 Ebrill 2021.

YN BERSONOL



Bydd y gorsafoedd
pleidleisio ar agor
rhwng **7AM a 10PM**
ddydd Iau 6 Mai.

Ni fydd angen eich cerdyn
pleidleisio nac unrhyw ID
arnoch chi.

Mae eich cerdyn pleidleisio yn
dweud wrthyfch **ble i fynd i
fwrw'ch pleidlais**. Dim ond yn
eich gorsaf bleidleisio y cewch chi
bleidleisio - ond efallai nad honno
yw'r un agosaf atoch chi.

Gallwch hefyd chwilio am eich
gorsaf bleidleisio **yn ôl cod post**
ar wefan y Comisiwn Etholiadol.
Neu, gall Tîm Cofrestru Etholiadol
eich cyngor lleol eich helpu.

MAE'R HOLL FFURFLENNI A'R WYBODAETH SYDD EU HANGEN ARNOCH CHI AR GAEL YN
electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

COFIWCH: os ydych chi'n ddinesydd tramor sy'n byw yng Nghymru, neu'n berson
ifanc 16 oed neu'n hŷn, gallwch chi nawr **GOFRESTRU I BLEIDLEISIO**
a chymryd rhan yn etholiadau'r Senedd.